Wales Concordat Cymru

Working together to improve health and social care
Cydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol

Concordat Rhwng y Cyrff sy'n Arolygu, Rheoleiddio ac Archwilio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

RHOI CONCORDAT CYMRU AR WAITH

Rhagarweiniad

Mae cyrff adolygu allanol sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu set o egwyddorion ac arferion ac wedi cytuno arnynt (Concordat) i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac i gael gwared ar unrhyw faich diangen a ddaw yn sgil adolygiadau allanol.

Mae'r Concordat[1] yn gyson â nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yng Nghymru. Mae Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru[2] a'i gynllun gweithredu Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth[3] yn nodi'r galw i symleiddio'r haenau o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan greu strwythurau cofnodi mwy eglur ac effeithiol. Mae Creu'r Cysylltiadau yn awgrymu hefyd y dylai cyrff sy'n llwyddo fod yn destun llai o graffu na'r rhai nad ydynt yn gwneud cystal.

Cyhoeddwyd y Concordat ym mis Mai 2005, ac mae'n gytundeb gwirfoddol rhwng y cyrff canlynol:

Prif Lofnodwyr y Concordat:
- Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Y Comisiwn Gofal Iechyd
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion
- Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Cronfa Risg Cymru

Llofnodwyr Cyswllt y Concordat
- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
- Cydffederasiwn y GIG - Cymru
- Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Ôl-raddedigion, Prifysgol Caerdydd
- Ystadau Iechyd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae'r holl lofnodwyr wedi cytuno y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y caiff yr amcanion canlynol eu mabwysiadu wrth weithredu'r Concordat:

Mae adolygiadau allanol:
• yn cael eu cydgysylltu ag adolygiadau a chasgliadau eraill o ddata.
• yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau, a gofalwyr lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.
• yn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad.
• yn annibynnol, yn gyson a theg.
• wedi'u targedu ac maent yn gymesur.
• yn dryloyw ac yn atebol.

Mae cyrff adolygu allanol:
• yn gwella'u dulliau yn gyson.
• yn defnyddio dulliau cydgysylltiedig a chymesur o orfodi.
• yn monitro eu harferion yn barhaus yn unol â'r concordat.

Mae adolygwyr allanol:
• yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau addas ac wedi'u hyfforddi'n briodol.

Rhoi'r Concordat ar waith

Mae'r rhan fwyaf o amcanion y Concordat (amcanion 2, 3, 4, 5, 7, 8, 10) yn cael eu gweithredu'n fewnol gan y llofnodwyr; yn wir, mae llawer o'r amcanion hyn eisoes yn rhan o arferion a gweithdrefnau'r llofnodwyr ac maent yn cael eu cydnabod yn gyffredinol fel arferion da.

Ymdrinnir â'r amcanion sy'n weddill (amcanion 1,6, a 9) drwy waith ar y cyd rhwng y llofnodwyr a grwpiau a chyrff eraill sy'n rhanddeiliaid.

• Mae nifer o'r prif ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag ochr gwaith cymdeithasol y Concordat yn cael eu cyflawni drwy waith ar y cyd rhwng AGCC ac ASGC a hefyd drwy Is-grŵp Arolygu Bwrdd Gwella Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod arolygu, archwilio a rheoleiddio yn cael eu cydlynu'n well. (Goruchwylio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella y mae Bwrdd Gwella Cymru a'r nod yw gwella perfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol)

• Arweinir y gwaith o weithredu'r agweddau gofal iechyd o'r Concordat lle mae angen cydweithredu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae Bwrdd Prosiectau Gofal Iechyd, (sy'n rhoi cyfeiriad cyffredinol i'r Concordat ac sy'n rheoli'r gweithredu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd) a thri gweithgor, wedi'u sefydlu i fwrw ymlaen ag agweddau penodol o'u gwaith.
• Y gweithgor cynllunio a chydlynu -
• Y gweithgor gwybodaeth a chyfathrebu
• Y gweithgor hyfforddiant ac achredu

Bydd y tri gweithgor hyn yn gweithio ar faterion sy'n ymwneud â, er enghraifft, mapio'r llif gyfredol o wybodaeth a'r gwaith casglu data; datblygu protocolau ac offer ar gyfer rhannu gwybodaeth; clustnodi a gwerthuso dulliau o asesu risgiau a chynllunio ar y

cyd; clustnodi gwell dulliau o drefnu adolygiadau'n well, a rhoi system ar y we ar gyfer gwneud trefniadau; ymgynghori â rhanddeiliaid i gael eu barn am yr hyn sy'n arfer da neu ddrwg wrth arolygu/archwilio; datblygu meini prawf ar y cyd er mwyn adnabod arferion da. Caiff cynnyrch y gweithgorau hyn eu cyflwyno i Grŵp Cyfeirio o'r prif randdeiliaid ar gyfer sicrhau ansawdd.

• Mae'r Comisiwn Gofal Iechyd yn arwain ar y Concordat rhwng cyrff sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio gofal iechyd yn Lloegr ac maent yn un o'r rhai sydd wedi llofnodi Concordat Cymru. Bydd y gwaith a wneir ar y Concordat yn Lloegr yn cael ei bwyso a'i fesur yn ofalus i weld a oes modd gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru.

• Hefyd, bydd y gweithgorau yn talu sylw i Adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad ar Arolygu a Rheoleiddio[4], a Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Arolygu a Rheoleiddio Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwasanaethu Pobl Cymru, sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

• Wrth ddatblygu a gweithredu'r Concordat, ystyrir rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny a ddaw â'r budd mwyaf cyn gynted â phosibl.

Monitro'r modd y caiff y Concordat ei weithredu

Mae Grŵp Llywio'r Concordat, sy'n cynnwys y llofnodwyr cyfredol, wedi'i sefydlu i fonitro'r modd y caiff amcanion y Concordat eu cyflawni.

Wrth fonitro'r modd y caiff amcanion y Concordat eu cyflawni bydd Grŵp Llywio'r Concordat yn ystyried yr agweddau canlynol o'r gwaith:

• Gwaith Bwrdd Gwella Cymru, yn enwedig gwaith yr is-grŵp arolygu o Fwrdd Gwella Cymru;
• Argymhellion y Bwrdd Prosiectau Gofal Iechyd, sy'n rhoi cyfeiriad cyffredinol i'r Concordat ac sy'n rheoli'r gweithredu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, a'r tri gweithgor gofal iechyd a arweinir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Bwrdd Prosiectau Gofal Iechyd;
• Hynt y gwaith o weithredu Concordat Lloegr ac a yw argymhellion y gwahanol weithgorau yn berthnasol i Gymru
• Unrhyw faterion a mentrau perthnasol sy'n deillio o'r fforymau rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol;
• Nod Llywodraeth y Cynulliad o wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflawni yng Nghymru - fel sydd yn Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru[2], yn enwedig:
    • Cryfhau'r ffocws ar fuddiannau defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a'r gymuned wrth gynllunio, darparu a chofnodi gwaith rheoleiddio ac arolygu;
    • Gwella rôl rheoleiddio ac arolygu wrth symbylu'r gwaith o wella perfformiad a hybu lledaeniad arfer da;
    • Gwella effeithiolrwydd y cyfraniad a wna tystiolaeth ac arbenigedd proffesiynol rheoleiddio ac arolygu i'r gwaith o ddatblygu polisi; a
    • Hybu gwell cydweithio rhwng y cyrff sy'n adolygu wrth gynllunio eu hadolygiadau, wrth gasglu data ac wrth rannu gwybodaeth ac arbenigedd, a fydd yn gwella eu heffeithiolrwydd ac yn lleihau'r baich ar gyrff sy'n cael eu harolygu.

Mynd i'r afael â'r Gymraeg, diwylliant ac amrywiaeth yn rhaglen weithredu'r Concordat

Mae gan Gymru gymdeithas amlddiwylliannol sy'n cael ei chyfoethogi gan boblogaeth amrywiol. Mae hefyd yn gymdeithas ddwyieithog lle mae'r Gymraeg ar gynnydd ym mhob man, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd Concordat Cymru yn talu sylw i'r egwyddorion yn laith Pawb[5] i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a chreu gwlad ddwyieithog. Bydd pob gweithgor yn cymryd egwyddorion laith Pawb i ystyriaeth wrth ddatblygu eu cynnyrch a byddant yn cyflwyno unrhyw argymhellion angenrheidiol i'r Grŵp Llywio i'w hystyried gan y llofnodwyr.

Llyfryddiaeth

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mai 2005) Concordat Rhwng y Cyrff sy'n Arolygu, Rheoleiddio ac Archwilio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Hydref 2004) Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

3. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mehefin 2005) Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

4. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Mai 2005) Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwefror 2003) Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y cerrig milltir allweddol ar gyfer gweithredu

Mae'r cerrig milltir allweddol a'r dyddiadau cwblhau targed yn canolbwyntio ar yr amcanion hynny y mae'r llofnodwyr yn mynd rhagddynt â hwy drwy gydweithio - yn benodol:

• Amcan 1 - caiff adolygiadau allanol eu cydgysylltu ag adolygiadau a chasgliadau eraill o ddata
• Amcan 6 - mae adolygiadau allanol wedi'u targedu ac maent yn gymesur
• Amcan 9 - mae adolygwyr allanol yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau addas ac wedi'u hyfforddi'n briodol

Cerrig milltir **Y meysydd sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n cael eu gweithredu drwy Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**	**Amcanion y Concordat**	**Dyddiad Cwblhau Targed**
1. Bydd cyfres o weithdai yn cael eu cynnal i randdeiliaid mewn canolfannau o gwmpas Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mai 2006. Nod y gweithdai fydd cael barn darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau am y ffordd y mae cyrff adolygu, sy'n gwneud arolygiadau ac adolygiadau gofal iechyd, yn cydweithio a sut y gellir gwneud hyn yn well yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu bwydo i'r gweithgorau a ffurfiwyd i fwrw ymlaen â'r agweddau gofal iechyd o'r Concordat.	Amcanion 1, 6 a 9	Cyhoeddi adroddiad am yr ymgynghori: Mehefin 2006
2. Bydd systemau'n cael eu datblygu er mwyn medru cydlynu arolygiadau'n well, a bydd dulliau monitro'n cael eu datblygu hefyd. Cynigir bod offer yn cael ei roi ar y we fydd yn dangos gwybodaeth am y data a'r trefniadau ar gyfer y rhaglen o ymweliadau'r llofnodwyr. Mae rhaglen waith fanwl yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â hyn. Bydd yr wybodaeth fydd ar gael am y gwaith sydd eisoes ar y gweill ar yr offer rhaglennu yn Lloegr yn bwysig i'n helpu ni ddatblygu'r rhaglen ar y we. Bydd yr offer rhaglennu ar y we yn helpu'r llofnodwyr i gydlynu a chynllunio arolygiadau'n well ac i dynnu sylw at waith y gellid ei wneud ar y cyd i leihau baich cyffredinol yr arolygiadau.	Amcan 1	Datblygu: Mawrth - Medi 2006
3. Bydd yr arfer o rannu gwybodaeth gan gynnwys defnyddio'r setiau data cyfredol rhwng llofnodwyr yn cael ei ddatblygu. Bydd gwaith yn cael ei wneud i glustnodi a chrynhoi'r mathau o wybodaeth sy'n cael ei chasglu a/neu ei chadw gan lofnodwyr am y darparwyr gofal iechyd a reolir ganddynt. Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i fapio'r arferion cyfredol ar gyfer gofyn am wybodaeth, ei chasglu a'i rhannu. Bydd y gwaith yn helpu i ddod â cheisiadau am yr un math o wybodaeth a bylchau yn yr wybodaeth i'r amlwg.	Amcan 1	Datblygu a dichonolrwydd: Mawrth - Medi 2006
4. Bydd rolau a chylchoedd gwaith y llofnodwyr yn cael eu mapio. Bydd y gwaith hwn yn help i glustnodi achosion lle mae bylchau a gorgyffwrdd yn yr arferion gweithio cyfredol ac yn dangos lle gallai mwy o gydweithio arwain at ostyngiad yn y gweithgareddau adolygu.	Amcanion 1 a 6	Datblygu a dichonirwydd: Mawrth - Medi 2006
5. Bydd fframwaith asesu ar y cyd yn cael ei ddatblygu i helpu llofnodwyr gynllunio'u gweithgareddau ar sail y lefelau perthnasol o risg. Dylai'r gwaith hwn arwain at adolygiadau sydd wedi'u targedu'n well ac sy'n fwy cymesur.	Amcan 6	Datblygu fframwaith: Mai - Tachwedd 2006
6. Bydd protocolau yn cael eu datblygu rhwng y llofnodwyr er mwyn clustnodi'r arferion da a'u rhannu. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth i'r llofnodwyr unigol, darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau a gall fod yn ddull o wella llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion.	Amcan 1	Y protocolau i'w cytuno: Mis Medi 2006
Yr agweddau gwasanaethau cymdeithasol o'r gwaith y mae is-grwp arolygu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn mynd rhagddynt â hwy		
7. Datblygu canllawiau ar y cyd ar weithredu'r agweddau arolygu, rheoleiddio ac archwilio o'r rhaglen wella.		Gorffennaf 2006
Agweddau eraill o'r gwaith sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol		
8. Gwaith yn cael ei wneud gan ASGC ac AGCC		Gorffennaf 2006

Ymgynghori a Chyfathrebu

Ym mis Mawrth 2006 aeth gwefan arbennig (www.cymru.gov.uk/hscconcordat) ar gyfer Concordat Cymru yn fyw ar-lein. Bydd y wefan hon yn siop un-stop ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Choncordat Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a bydd yn cynnwys dolennau cyswllt i wefannau'r llofnodwyr. Caiff y wefan ei diweddaru'n rheolaidd, a bydd yn cynnwys adroddiadau am hynt y broses weithredu gyda manylion am y buddiannau a ddisgwylir i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Mesur Llwyddiant

Caiff fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys dulliau ansoddol a meintiol penodol o fesur llwyddiant ar sail canlyniadau.

Mwy o wybodaeth

Os hoffech fwy o wybodaeth am agweddau o'r Cynllun Gweithredu cysylltwch â:

• Yn achos yr agweddau gofal iechyd o'r cynllun gweithredu:

Mr Peter Higson, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
E-bost: Peter.Higson@wales.gsi.gov.uk

• Yn achos yr agweddau gwasanaethau cymdeithasol o'r cynllun gweithredu:

Mr Richard Tebboth, Dirprwy Brif Arolygydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
E-bost: Richard.Tebboth@wales.gsi.gov.uk

• Yn achos yr agweddau gofal cymdeithasol o'r cynllun gweithredu:

Mr Rob Pickford, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
E-bost: Rob.Pickford@wales.gsi.gov.uk

G/141/06-07
0 7504 8834 4

Mehefin
CMK-22-02-129

Typeset in 12pt
© Hawlfraint y Goron 2006